# Dogfen
# Ffurflen Gais Arian Cynhyrchu

Dylech gyflwyno'r ffurflen gais hon dim ond os mai chi yw'r cynhyrchydd arweiniol a deiliad hawliau'r prosiect. Os oes angen datblygu eich prosiect ymhellach yna dylech edrych ar ein Cyllid Datblygu, neu ein rhaglenni ariannu RHWYDWAITH BFI Cymru, yn dibynnu ar lefel eich profiad.

| | |
|---|---|
| Ni fyddwch yn gallu llenwi'r ffurflen gais hon yn gywir nes eich bod wedi darllen y canllawiau Ariannu Cynhyrchu ac rydym yn eich cynghori i gyfeirio atynt wrth i chi lenwi'r ffurflen. Byddwch mor garedig â chadarnhau eich bod wedi darllen ein canllawiau. | |

## Eich Cais am Arian

| | |
|---|---|
| Faint o arian mewn GDP ydych chi'n gofyn amdano gan Ffilm Cymru yn GBP? | £ |
| Dyddiad ymgeisio | |

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Cymru Greadigol Creative Wales

## Amdanoch Chi

| | |
|---|---|
| Enw’r Ymgeisydd | |
| Enw’r Cwmni | |
| Dolen i gofnod Tŷ’r Cwmnïau | |
| Dolen i IMDB y Cwmni | |
| Cyfeiriad | |
| Côd Post | |
| Rhif Ffôn | |
| Cyfeiriad e-bost | |
| Gwefan | |
| Nifer y prosiectau hyd nodwedd rydych wedi'u harwain sydd wedi'u rhyddhau mewn sinemâu trwy ddosbarthwr | |

**Ynglŷn â'ch Prosiect**

| | |
|---|---|
| Teitl y Prosiect | |
| Crynodeb o'r Stori (200 gair ar y mwyaf)<br>*Rhowch drosolwg o'ch stori, gan gyflwyno'r prif gymeriadau a'r pwyntiau plot posibl. Disgrifiwch strwythur y stori a'r llwybr naratif arfaethedig, neu fwâu posibl y cymeriadau.* | |
| Crynodeb o'r Pynciau (200 gair ar y mwyaf).<br>*Manylwch ar y pynciau, y themâu, yr heriau, y sialensiau neu'r cwestiynau bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw.* | |
| Pa fynediad sydd gennych i'r stori a'r cymeriadau? | |
| Beth yw iaith / ieithoedd eich prosiect? | |

| | |
|---|---|
| Ydych chi'n berchen ar yr hawliau (gan gynnwys unrhyw hawliau sylfaenol) yn y prosiect, neu a ydych chi'n gallu cael gafael arnynt? | |
| Rhestrwch unrhyw hawliau allweddol neu ystyriaethau cyfreithiol sy'n bodoli ar gyfer y prosiect hwn, gan gynnwys cliriadau a / neu leoliad, perchnogaeth a chost arfaethedig unrhyw ddeunydd archif. | |
| A yw'r prosiect wedi'i strwythuro fel cyd-gynhyrchiad rhyngwladol? *Os felly, nodwch gyda pha wledydd a chwmnïau, ac a ydynt wedi'u cadarnhau.* | |

## Eich Tîm Craidd

Nodwch a ydynt yn byw yng Nghymru neu wedi eu geni yng Nghymru, gan gynnwys manylion cyswllt, a sicrhewch eich bod wedi atodi dolen i'w IMDB neu grynodeb ar-lein proffesiynol arall. Os oes mwy nag un person mewn un rôl, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth amdanynt, a hynny yn fanwl. Nid oes angen i chi ddarparu manylion cyswllt ar gyfer y cast.

| Tîm Craidd | Enw | Dolen Imdb / Dolen i Broffeil Ar-lein Arall | Credyd Proffesiynol Perthnasol Diweddaraf | Y Cyswllt Cymreig (Geni / Lleoli) |
|---|---|---|---|---|
| Awdur(on) | | | | |
| Cynhyrchydd/wyr | | | | |
| Cyfarwyddwr/wyr | | | | |
| Uwch-gynhyrchydd | | | | |
| Cyd-gynhyrchydd/wyr | | | | |
| Sinematograffydd | | | | |
| Sain | | | | |
| Golygydd | | | | |
| Cyfranwyr Allweddol | | | | |

## Creadigol

| Datganiad y Cyfarwyddwr.<br>Sut ydych chi’n bwriadu adrodd y stori yma? *Disgrifiwch eich gweledigaeth greadigol ar gyfer y prosiect gorffenedig - sut fydd y prosiect yn edrych ac yn teimlo. Eglurwch eich defnydd arfaethedig o iaith sinematig neu unrhyw ddull artistig penodol fydd yn dylanwadu ar eich ffordd o ddweud y stori. Os yw'n berthnasol, soniwch am unrhyw elfennau rhyngweithiol, technolegau newydd neu gyfryngau nad ydynt yn draddodiadol yr ydych yn bwriadu eu defnyddio. Eglurwch sut bydd yr elfennau hyn yn cyfoethogi'r profiad a'r rhyngweithio rhwng y gwylwyr a byd y stori.* |
|---|
| |

| Datganiad y Cynhyrchydd.<br>*Beth ddenodd chi at y prosiect? Sut mae’r prosiect hwn yn gweddu i’ch cynllun busnes / llechen syniadau?* |
|---|
| |

| |
|---|
| Moeseg: Pam mai chi a / neu aelodau'ch tîm yw'r person / bobl iawn i adrodd y stori hon? *(Beth yw eich cysylltiad â'r gymuned a / neu gyfranogwyr? Disgrifiwch y camau yr ydych wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, er mwyn sicrhau arferion moesegol wrth wneud y ffilm, lle bo'n berthnasol).* |
| |

**Y Budd i Gymru**

| | |
|---|---|
| Beth yw amcangyfrif eich gwariant Cymreig?<br>*Diffinnir gwariant Cymreig fel talent uwchben-y-llinell a aned neu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru (cast, ysgrifenwyr, cyfarwyddwyr neu gynhyrchwyr) yn ogystal ag unrhyw wariant cynhyrchu hanfodol ar weithlu sy'n byw yn bennaf yng Nghymru, neu gyflenwyr / cwmnïau sydd â chanolfan sylweddol yng Nghymru (adeiladau hirdymor, staff parhaol wedi'u lleoli yng Nghymru, ac offer wedi'i leoli yng Nghymru). Byddwch yn realistig gyda'ch amcangyfrif yn hyn o beth. Mae elfennau o'n cyllid yn gofyn am amcangyfrif o'r gwariant ac er mwyn eich cynghori ar y camau nesaf, bydd angen ffigur mor gywir â phosibl arnom.* | |
| Costau uwchben-y-llinell | £ |
| Costau islaw-y-llinell | £ |
| Nifer y criw arfaethedig | |
| Nifer y lleoliadau hyfforddi / cysgodi.<br>*Mae'n ofynnol i brosiectau dogfen rydym yn buddsoddi ynddynt gynnig hyd at bedwar lleoliad hyfforddi neu gysgodi, â thâl, ar gyfer talent o Gymru.* | |
| Rhowch wybod pa fylchau o ran sgiliau rydych chi'n dod ar eu traws yn rheolaidd yn eich gwaith a sut y gallai'ch lleoliadau awgrymedig fynd i'r afael â'r rhain, gan helpu'ch cwmni i ddatblygu. | |

## Amserlen a Logisteg

| | |
|---|---|
| Y gwaith cynhyrchu hyd yma (os yn berthnasol) | Oriau o ddeunydd:<br>Dyddiadau saethu blaenorol: |
| Amlinellwch yr amserlen gynhyrchu arfaethedig o sefyllfa bresennol y prosiect. *Dylai eich llinell amser gwmpasu pob cam cynhyrchu yn ogystal â'r cam ôl-gynhyrchu arfaethedig. Sylwch os ydych yn bwriadu golygu rhwng cyfnodau o saethu, addaswch y penawdau ar y dde fel y bo'n briodol.* | Cam Cynhyrchu 1: dyddiadau o / i (nifer wythnosau)<br>Cam Cynhyrchu 2: dyddiadau o / i (nifer wythnosau)<br>Ôl-gynhyrchu: dyddiadau o / i (nifer wythnosau) |
| Dyddiad cyflawni targed | Mis / Blwyddyn |
| Cyfanswm dyddiau ffilmio | |
| Cyfanswm nifer y criw | |
| Prif leoliadau | |

| | |
|---|---|
| Ystyriaethau o ran yr amserlen. *Oes unrhyw beth yn llywio'r amserlen? (e.e. digwyddiadau sydd angen eu dal fel rhan o'r ffilm ac na ellir eu hail-drefnu)* | |

| Ymhelaethwch ar y personel allweddol (yn enwedig y sinematograffydd a’r golygydd). Pam yr hoffech eu penodi? |
| --- |
| |

| |
|---|
| Ymhelaethwch ar lif y gwaith cynhyrchu, y lleoliadau a'r partneriaid.<br>*Tynnwch sylw at unrhyw gymhlethdod penodol gan gynnwys argaeledd cyfranwyr neu griw yn ogystal â'ch cynlluniau wrth gefn sy'n ymwneud â COVID-19. O ran yr olaf, rydym yn argymell darllen yr Asesiad Risg COVID-19 ar gyfer gwneuthurwyr ffilmiau dogfen, a luniwyd ar y cyd rhwng Doc Society, Sundance a Field of Vision.* http://tiny.cc/covidindiedoc |
| |

## Cyllideb

| A oes unrhyw beth yr hoffech ei ddweud wrthym am eich cyllideb? *Gallai hyn gyfeirio at linellau cyllideb penodol, gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â chostau Covid neu fanylion am ohiriadau. Argymhellir eich bod yn darparu cyllideb naratif yn ogystal ag atodi cyllideb gynhyrchu lawn.* |
| --- |
| |

## Cynllun Ariannol

Amlinellwch eich cynllun ariannol ar gyfer y prosiect hwn gan gynnwys unrhyw fuddsoddiad blaenorol rydych wedi ei dderbyn ar gyfer y prosiect. Cynlluniwyd y tabl isod fel canllaw yn unig, ac ni fydd pob math o gyllid yn berthnasol.

| Math o Gyllid | Ariannwr | Swm (£) | Statws (heb ei gadarnhau, Llythyr o Fwriad, llythyr o gynnig ac unrhyw fanylion eraill, fel bo'n addas) |
|---|---|---|---|
| Loteri (e.e. BFI, Creative Scotland, Screen Ireland ayb.) | | | |
| Cyd-gynhyrchiad | | | |
| Ecwiti Preifat | | | |
| Cyllid Mesanîn | | | |
| Cyllid Bwlch | | | |
| Arian Grant | | | |
| Rhagwerthiant | | | |
| Dêl Ôl-gynhyrchu | | | |
| Credyd Treth / Anogaeth / Lloches | | | |
| Gohiriadau | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arall | | | |
| Cyfanswm (rhaid bod yr un fath â'r gyllideb a ddangosir) | | | |

| |
|---|
| Ymhelaethwch ar eich strategaeth ar gyfer ariannu'r prosiect: |
| |

## Cynulleidfa a Cyrhaeddiad

| Rhowch drosolwg o'r gynulleidfa ar gyfer y prosiect.<br>*Os yw'r prosiect yn seiliedig ar eiddo deallusol sydd eisoes yn bodoli, dylech hefyd roi manylion y gynulleidfa 'gynhwysol 'neu'r 'gronfa gefnogwyr' gan ddefnyddio ffigyrau gwerthu, yr ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.* |
| --- |
| |

| Darparwch drosolwg o'r asiantau gwerthu, dosbarthwyr, gwyliau a phartneriaid eraill yr ydych yn bwriadu cysylltu â nhw a sut yr ydych yn bwriadu lleoli'r ffilm yn y farchnad, gan ddyfynnu tair ffilm ddogfen theatrig gymharol ddiweddar a sut bu iddynt berfformio. |
|---|
| |

| Rhowch drosolwg o'ch cynhyrchiad diwethaf os yn berthnasol, e.e. cyllideb a refeniw, rhyddhau gwybodaeth a phartneriaid. |
|---|
| |

## Cynllun Cynaliadwyedd

Rhaid i bob cynhyrchiad a ariannwn gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol, amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant, ac arloesedd ehangach o ran busnes. Er enghraifft, rhaid i bob cynhyrchiad groesawu pobl dan hyfforddiant, darparu deunyddiau mynediad ar gyfer yr anabl, a monitro amrywiaeth y cast a'r criw.

Yn ogystal â hyn, rydym am gynorthwyo cynhyrchwyr i fynd gam ymhellach er mwyn cefnogi cynaliadwyedd y sector sgrîn yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu Cynllun Cynaliadwyedd sy'n unigryw i'ch cynhyrchiad chi. Mae'n bosibl y byddwn yn cynnig hyd at £25,000 o arian grant nad yw'n ad-daladwy er mwyn cefnogi cynlluniau a allai gael effaith sylweddol ar y sector ffilm yng Nghymru.

Bydd y ceisiadau am gyllid Cynllun Cynaliadwyedd yn digwydd trwy wahoddiad yn unig, a dim ond tuag at gostau'r Cynllun Cynaliadwyedd y cytunwyd arno gyda Chynhyrchydd Gweithredol Ffilm Cymru y gellir ei ddefnyddio.

Disgwyliwn i gynhyrchwyr ystyried sut mae pob maes yn gorgyffwrdd â'i gilydd.  Er enghraifft, efallai y byddwch yn penderfynu eich bod am ganolbwyntio ar raglen hyfforddi uchelgeisiol, gan hyfforddi fwy o 'brentisiaid' nag sy'n ofynnol, ond byddai'n allweddol i blethu ystyriaethau amgylcheddol ac amrywiaeth a chynhwysiant i'r cynllun hwnnw (er enghraifft edrych ar recriwtio yn lleol, a sicrhau iaith glir wrth hysbysebu am swyddogaethau).

## Cynaliadwyedd Amgylcheddol

| Rhowch wybod i ni sut y gallech gyfyngu ar effaith amgylcheddol y ffilm hon gan ystyried elfennau fel teithio (500 gair ar y mwyaf). Gallwch ddarllen Cynllun Cymru Werdd Ffilm Cymru yma. |
| --- |
| |

Ffilm CYMRU WALES

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

| Amlinellwch sut yr ydych yn bwriadu cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth weithio ar y prosiect hwn, gan roi sylw i brosesau yn ogystal â chynrychiolaeth megis y ffordd y gallech redeg cynhyrchiad, ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol. *Manylwch ar sut rydych yn bwriadu recriwtio ar gyfer unrhyw swyddogaethau, gan gynnwys y sawl dan hyfforddiant, fel yr amlinellir isod. (500 gair ar y mwyaf). Gallwch ddarllen Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Ffilm Cymru yma.* |
|---|
| |

## Sgiliau a Hyfforddiant

| Amlinellwch y cyfleoedd fydd ar gael ar gyfer derbyn hyfforddiant ar eich ffilm. *Nodwch unrhyw gyfleoedd cysgodi ychwanegol ar gyfer awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr Cymreig sydd ar lechen Ffilm Cymru. (500 gair ar y mwyaf)* |
| --- |
| |

## Entrepreneuriaeth

| Mae gennym ddiddordeb mewn clywed sut y gall y ffilm hon helpu i ddatblygu model busnes eich cwmni, a sut y gallech chi brofi ac adeiladu'r gynulleidfa ar ei chyfer. *Amlinellwch unrhyw gynlluniau ymarferol sydd gennych ar gyfer elwa o eiddo deallusol ategol, megis asedau addysgol neu waith all ddeillio o’r prosiect; gwaith datblygu cynulleidfa, megis gweithdai mewn cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol; a / neu unrhyw strategaethau effaith neu syniadau er mwyn cefnogi rhyddhau’r ffilm.* *(500 gair ar y mwyaf)* |
| --- |
| |

| Nodwch bartneriaid a allai eich helpu i gyflawni'r cynlluniau hyn a sut y gallent eich helpu i adeiladu eich cynulleidfa. (500 gair ar y mwyaf) |
| --- |
| |

**I’W DARLLEN YN UNIG: NID AR GYFER EI CHWBLHAU**

# Rhestr Wirio Gwneud Cais

| | |
|---|---|
| Sicrhewch fod yr holl wybodaeth / dogfennau ategol canlynol yn cael eu cyflwyno er mwyn cwblhau eich cais am gyllid: | |
| Triniaeth o 8-10 tudalen | |
| Cyllideb gynhyrchu lawn, gyda gwariant Cymreig wedi'i amlinellu'n glir, wedi ei llywio gan adolygiad o'r gofynion cyllidebol a ddarperir yng nghanllawiau FfCW, megis gofynion cyfreithiol FfCW, pobl dan hyfforddiant ac anghenion mynediad i'r anabl. Rydych yn cadarnhau eich bod wedi cynnwys y canlynol yn eich cyllideb:<br>• Costau criw yn unol â chytundeb Pact/BECTU<br>• Isafswm Equity, o leiaf, ar gyfer y cast<br>• Darpariaeth ar gyfer hyd at bedwar lleoliad hyfforddi a / neu gysgodi, gyda pedwar i chwech o bobl dan hyfforddiant ddylai gael o leiaf y cyflog byw cenedlaethol ar gyfer y gwaith<br>• Clirio pob hawl yn y prosiect ledled y byd ym mhob cyfrwng am byth (ac eithrio'r symiau hynny sy'n ddyledus mewn perthynas â hawliau perfformio cerddoriaeth gyhoeddus)<br>• Ad-dalu unrhyw arian o Gronfa Datblygu neu Gronfa Horizons Ffilm Cymru (os yw’n berthnasol)<br>• Ffioedd cynhyrchwyr / cynhyrchu sy’n gymesur â’r gyllideb arfaethedig (gweler ymhellach isod)<br>• Yr holl ddeunyddiau dosbarthu (gweler Amodau Safonol Ariannu Cynhyrchu isod) sy’n ofynnol gan Ffilm Cymru gan gynnwys deunyddiau mynediad sy’n ymwneud ag arddangos i bobl F/fyddar, trwm eu clyw, Anabl, niwroamrywiol, sydd wedi colli eu golwg a / neu sydd â nam ar y synhwyrau<br>• Deunyddiau dosbarthu digonol i'w dosbarthu i asiant gwerthu rhyngwladol a'r holl bartneriaid ariannu eraill<br>• Lwfans digonol ar gyfer costau cyfrifydd ac archwilio gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â’r archwiliad terfynol, gan gynnwys dadansoddiad o wariant Cymreig, ac ar gyfer credyd treth y DU<br>• Costau cyfreithiol digonol ar gyfer y cynhyrchiad a’r arianwyr (mae manylion y canllawiau ar gostau cyfreithiol Ffilm Cymru yma)<br>• Yr holl gostau ariannol<br>• Costau mynediad dangosol<br>• Cronfa wrth gefn o 10% o gostau craidd islaw'r llinell<br>• Costau iechyd & diogelwch Covid, fel bo’n berthnasol | |

| | |
|---|---|
| CVs ar gyfer eich tîm craidd a dolen weithredol i waith gorffenedig diwethaf y cyfarwyddwr<br>(sicrhewch fod y ddolen hon yn aros ar agor am 8 wythnos wedi i chi gyflwyno eich cais). | |
| Dadansoddiad o'r swm a wariwyd hyd yma, gan nodi faint o wariant sydd wedi'i ariannu. | |
| Dadansoddiad o'r costau yr ydych yn gofyn am gyllid yn eu herbyn. | |
| Unrhyw Lythyr o Fwriad neu gadarnhad ysgrifenedig o gyllid sydd wedi ei gadarnhau o fewn corff y cais. | |
| Ffurflen Datganiad Rheoli Cymhorthdal y DU | |

Ni fydd eich cais yn gyflawn nes bod yr holl eitemau hyn wedi'u cyflwyno. Rydym hefyd yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno copi o Bolisi Cynaliadwyedd eu Cwmni, os yw ar gael.

| |
|---|
| Os byddai'n well gennych gyflwyno dolen i dropbox neu safle storio ar-lein arall ar gyfer eich holl ddogfennau, yna rhowch y ddolen a'r cyfrinair isod. Mae croeso i chi hefyd gyflwyno dogfennau ategol eraill, megis catalog digidol, amserlen gynhyrchu / llinell amser fanylach neu ddolen i gael blas neu sampl o'r ffilm. Rydym yn eich annog i gynnwys disgrifiad o sut mae unrhyw ddeunydd ffilmio ychwanegol a ddarperir fel rhan o'ch cais yn cynrychioli'r stori, arddull, pwnc, neu unrhyw agwedd arall ar y prosiect. |
| |

## Datganiadau a Diogelu Data

Rydym drwy hyn yn cadarnhau, yn datgan ac yn gwarantu bod y wybodaeth ganlynol yn wir ac yn gywir hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred hyd heddiw:

1. Nad oes unrhyw symiau'n ddyledus ac heb eu talu i Ffilm Cymru mewn cyswllt ag unrhyw brosiectau y mae'r cwmni hwn neu unrhyw un o'i gwmnïau cysylltiedig (gyda'i gilydd, 'y Cynhyrchydd') wedi'i dderbyn gan Ffilm Cymru; a / neu unrhyw brosiectau y mae'r Cynhyrchydd bellach yn berchen arnynt neu'n eu rheoli ac y mae trydydd parti wedi derbyn cyllid ar eu cyfer gan Ffilm Cymru (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i symiau sy'n ddyledus i ad-dalu benthyciadau datblygu mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi eu cynhyrchu wedi hynny) o dan unrhyw gytundeb, cynllun neu fenter;
2. Bod Ffilm Cymru wedi derbyn yr adroddiad gwerthiant mwyaf cyfredol posib ar gyfer pob prosiect a gynhyrchwyd neu a gyd-gynhyrchwyd gan y Cynhyrchydd sy'n derbyn cyllid gan Ffilm Cymru ac y mae gan Ffilm Cymru hawl i rannu refeniw; a
3. Ym mhob ffordd arall, mae'r Cynhyrchydd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl gytundebau sydd wedi'u gwneud gyda Ffilm Cymru (gan gynnwys cyflwyno'r holl ddeunyddiau dosbarthu cytundebol i Ffilm Cymru erbyn y dyddiad a gontractiwyd).

| | |
|---|---|
| Rwyf wedi darllen, deall ac yn cadarnhau'r uchod. | |

Bydd Ffilm Cymru Wales yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen hon i helpu i brosesu eich cais. Gellir cadw'r wybodaeth hon ar gyfrifiadur a gellir ei defnyddio at ddibenion ystadegol. Gall y wybodaeth gael ei storio, ei phrosesu a'i throsglwyddo'n gyfrinachol / ei rhannu ag unigolion neu sefydliadau sy'n ein helpu i asesu ceisiadau neu i fonitro cyllid. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a darpariaethau cyfreithiol cysylltiedig sy'n ymwneud â diogelu data. Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth sydd gan Ffilm Cymru yn eu cofnodion. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i Ffilm Cymru

gywiro unrhyw wallau yn eich gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein Polisi Preifatrwydd.

| | |
|---|---|
| Rwyf wedi darllen, deall ac yn cadarnhau'r uchod. | |

Rwy'n cadarnhau fod yr holl wybodaeth a ddarperir ar y cais hwn, ac mewn unrhyw ddeunydd a gyflwynir i'w gefnogi, yn wir ac yn gywir. Rwy'n cadarnhau fod pob cais arall i ddosbarthwyr eraill gwobrau'r Loteri wedi'u datgan. Rwy'n ymrwymo i hysbysu Ffilm Cymru yn llawn ac ar unwaith am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar y cais hwn neu'r deunyddiau cysylltiedig. Rwy'n cadarnhau fod gennyf yr awdurdod i wneud y cais hwn ar ran y sefydliad sy'n ymgeisio.

| | |
|---|---|
| Rwyf wedi darllen, deall ac yn cadarnhau'r uchod. | |

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Llofnod | |
| Swydd | |
| Dyddiad | |

| | |
|---|---|
| Cyd-lofnod:<br>(Os yw'n ofynnol gan bolisi'r cwmni neu gytundeb hawliau neu os yw'n gyd-gynhyrchiad | |
| Enw | |

| | |
|---|---|
| Teitl eich Swydd | |
| Dyddiad | |

| | |
|---|---|
| Ticiwch y blwch hwn os hoffech dderbyn e-byst am gyfleoedd cyllido a hyfforddi tebyg gan Ffilm Cymru Wales. | |

## Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, neu os hoffech drafod unrhyw agwedd o'ch prosiect cyn gwneud cais, cysylltwch â:

Bizzy Day
Swyddog Cynhyrchu
bizzy@ffilmcymruwales.com